

EVANS, WILLIAM (1823 - 1900), ficer Rhymni a chanon mygedol yn eglwys gadeiriol Llandaf

Enw: William Evans

Dyddiad geni: 1823

Dyddiad marw: 1900

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: ficer Rhymni a chanon mygedol yn eglwys gadeiriol Llandaf

Maes gweithgaredd: Crefydd

Awdur: John James Jones

brodor o Langelor, Sir Gaerfyrddin. Addysgwyd ef yng Ngholeg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan, lle'r oedd yn ysgolor blaenaf ('senior scholar') ac enillwr y wobr am yr Hebraeg a diwinyddiaeth. Ordeiniwyd ef yn 1848 i guradiaeth S. Mair, Aberteifi. Bu'n gurad Gelligaer, 1850-3, a Throed-yr-aur, 1854-6. Penodwyd ef yn ficer Rhymni yn 1856, ac arhosodd yno hyd ei farw. Yr oedd yn un o glerigwyr blaenaf esgobaeth Llandaf, ac anrhydeddwyd ef â'r swyddi canlynol: prebend dirprwyol S. Cross neu Henry Morgan yn eglwys gadeiriol Llandaf, 1878; caplan cartrefol esgob Llandaf, 1883; a proctor i ddeon a chabidwl Llandaf, 1886. Bu'n gyd-olygydd *Y Cyfaill Eglwysig* o 1864 hyd 1866 pan ddaeth yn unig olygydd. Parhaodd i olygu'r misolyn hwn hyd 1893, pan ymddiswyddodd oherwydd afiechyd. Bu farw 8 Awst 1900.

Awdur

John James Jones, (1892 - 1957)

Ffynonellau

Y Cyfaill Eglwysig (1862-1957), 1894, 1900

Crockford's Clerical Directory

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20734611](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawffraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfeyrdiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Jones, J. J., (1953). EVANS, WILLIAM (1823 - 1900), ficer Rhymni a chanon mygedol yn eglwys gadeiriol Llandaf. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-EVAN-WIL-1823>

Cyfrwngwladur

Preifatrwydd a Chwcis
Hawffraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government